


# Mis y Plentyn Milwrol

## EBRILL 2025

### Sut y gall ysgolion gymryd rhan…

**Deall**

**Ymgysylltu**

**Dathlu**

ssce: CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Mis Ebrill yw Mis y Plentyn Milwrol, sy’n tynnu sylw at rôl bwysig plant milwyr yng nghymuned y Lluoedd Arfog. Mae’n gyfle i gefnogi teuluoedd y Lluoedd Arfog a’u plant oherwydd yr aberth maen nhw’n ei wneud bob dydd a’r heriau maen nhw’n eu goresgyn.

Hoffai SSCE Cymru annog lleoliadau addysg i gynnal gweithgareddau yn ystod y mis hwn, i ddathlu a chodi ymwybyddiaeth o brofiadau unigryw’r criw yma o blant a phobl ifanc, a dod yn amgylchedd fwy cyfeillgar o’r Lluoedd Arfog.

i

**Am ragor o wybodaeth, cyngor neu gymorth gydag unrhyw syniadau, ewch i wefan SSCE Cymru, ymunwch â ni mewn sesiwn galw heibio neu cysylltwch â SSCECymru@wlga.gov.uk**



**Millie**

**Rheolwr Rhaglen**



**Jo**

**Swyddog Arweiniol Cyfranogiad**



**Cara**

**Swyddog Cyswllt Ysgolion**



**Becca**

**Swyddog Cyswllt Ysgolion**

sscE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MotMCCymru

# Diwrnod Porffor i Fyny

## Dydd Mercher 30ain Ebrill yw'r diwrnod 'Porffor i fyny' am fis y Plentyn Milwrol yng Nghymru!

**Pam porffor?**
Dewiswyd porffor oherwydd ei fod yn symbol o holl ganghennau'r fyddin, cyfuniad o wyrdd y fyddin, glas yr awyrlu a'r gwarchodwr y glannau, coch y morol a las y llynges.

### Sut allwch chi gymryd rhan?

- Gwisgwch borffor (Ystyriwch codi arian ar gyfer elusen y Lluoedd Arfog).
- Creu gwaith celf ac arddangosfeydd porffor.
- Tynnwch lun o'r hyn rydych chi'n ei wneud.
- Postiwch eich llun/iau ar y cyfryngau cymdeithasol (tagiwch @SSCECyrmu ar X a Facebook) gan ddefnyddio'r hashnod **#MotMCCymru** – gyda neges i blant y Lluoedd Arfog, gan ddiolch iddynt am eu rôl bwysig yng nghymuned y Lluoedd Arfog.








SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MotMCCymru

# DEALL

## profiadau teuluoedd y Lluoedd Arfog

Gwyliwch a rhannwch storiau plant y Lluoedd Arfog NEWYDD SSCE Cymru I ddysgu fwy am eu profiadau unigryw.

Gwyliwch a rhannwch ffilmiau arfer da ysgolion NEWYDD SSCE Cymru I dysgu sut mae gwahanol ysgolion ledled Cymru yn cefnogi eu plant y Lluoedd Arfog.

Rhowch gyfle i blant y Lluoedd Arfog wneud cyflwyniad am eu profiadau o fod yn rhan o deulu'r Lluoedd Arfog neu rannu lluniau, i ddangos y cyfleoedd cadarnhaol.

Defnyddiwch Adnoddau Dysgu Cofio y Lleng Brydeinig Frenhinol i "adlewyrchu ar Wasanaeth ac aberth" a chodi ymwybyddiaeth o hanes ein cenedl.

Cynhaliwch amser stori am brofiadau plant y Lluoedd Arfog, ffordd o fyw'r Lluoedd Arfog, bod yn ddisgybl newydd yn yr ysgol neu gydnabod gwahaniaethau yn y naill a'r llall. Gellir archebu cyfres o chwe llyfr dwyieithog Little Troopers AM DDIM gan SSCECymru@wlga.gov.uk.

Dysgwch am ddiwylliant a thraddodiadau'r lleoedd y mae plant y Lluoedd Arfog wedi byw.

Defnyddiwch Adnoddau Dysgu Diwrnod y Lluoedd Arfog i archwilio hanes y Lluoedd Arfog.

Ar fap o'r byd, nodwch ble mae plant y Lluoedd Arfog wedi byw neu ble mae eu rhieni wedi eu hanfon i wasanaethu.

Gallwch gynnal grŵp trafod gyda eich plant y Lluoedd Arfog i gael gwell dealltwriaeth o'u profiadau a nodi ffyrdd y gall yr ysgol ymateb i'w hanghenion.

Trefnwch i'r tîm ymgysylltu â'r Lluoedd Arfog lleol roi cyflwyniad dosbarth am bwnc sy'n gysylltiedig â'r fyddin.

Gwnewch Wal Parth Amser, yn cynnwys cyfres o glociau i ddangos y gwahanol barthau amser o gwmpas y byd ble mae plant y Lluoedd Arfog wedi byw neu eu rhieni/rhiant wedi gwasanaethu.

# YMGYSYLLTU

## â chymuned y Lluoedd Arfog

Dathlwch aelod o'r teulu sydd wedi gwasanaethu neu sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd yn y Lluoedd Arfog drwy ofyn i blant y Lluoedd Arfog a'u cyfoedion rannu lluniau a medalau.

Rhowch wybodaeth yn newyddlenni/cyfrifon cyfryngau cymdeithasol yr ysgol am y cymorth sydd ar gael gan sefydliadau ac elusennau'r Lluoedd Arfog.

Defnyddiwch faner a delwedd Mis y Plentyn Milwrol ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn llofnodion e-bost.

Cefnogi plant y Lluoedd Arfog i ysgrifennu cerdyn diolch i rywun a fu'n eu helpu neu a oedd yn ffrind da iddynt pan gyrhaeddon nhw i'r ardal.

Gwahoddwch y disgyblion i ddweud ychydig eiriau o werthfawrogiad am y Lluoedd Arfog trwy ysgrifennu cerddi, caneuon neu ysgrifennu llythyrau.

Mynychwch eich cyfarfodydd fforwm Cyfamod y Lluoedd Arfog lleol i rwydweithio a gwneud cysylltiadau â chymuned leol y Lluoedd Arfog.

Gofynnwch i aelod presennol neu gyn-aelod o'r Lluoedd Arfog (rhiant, brawd neu chwaer) fod yn siaradwr gwadd yn yr ysgol a rhannu eu profiadau.

Gwahoddwch Hyrwyddwr Lluoedd Arfog eich Awdurdod Lleol i fynychu digwyddiadau/gweithgareddau yn ystod Mis y Plentyn Milwrol.

Gweithiwch gyda SSCE Cymru i gyflawni eich statws Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru.

Creu cyfleoedd i blant y Lluoedd Arfog gyfarfod a rhannu profiadau gyda phlant eraill y Lluoedd Arfog yn yr ardal leol.

Gwahoddwch y tîm ymgysylltu yn eich canolfan / uned/gorsaf leol y Lluoedd Arfog i gyflawni gweithgaredd (STEM neu adeiladu tîm) gyda disgyblion.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MotMCCymru

# DATHLU

## profiadau plant y Lluoedd Arfog

Dathlwch Ddiwrnod 'Porffor I fyny' ar Dydd Mercher 30ain Ebrill.

Creu arddangosfa i ddathlu Mis y Plentyn Milwrol gan ddefnyddio llawbrintiau porffor.

Annog plant y Lluoedd Arfog i fod yn greadigol a chynhyrchu darn o waith celf sy'n arddangos eu profiadau o fod yn rhan o deulu'r Lluoedd Arfog.

Cynnal gwasanaeth Mis y Plentyn Milwrol. Gwahoddwch eich plant y Lluoedd Arofg i adrodd y gerdd Dant y Llew.

Cynnal gweithgareddau codi arian a rhoi'r elw i elusen y Lluoedd Arfog lleol neu genedlaethol.

Cynnig 'tweens and teens the *Life of a Page Turner Reading Journal'*, cyfnodolyn personol lle gall pobl ifanc filwrol fynegi eu meddyliau a'u teimladau mewn geiriau a lluniadau. Ar gael trwy Reading Force.

Cynnal digwyddiad dathlu ar gyfer plant y Lluoedd Arfog a'u teuluoedd a'u ffrindiau.

Gwnewch bunting a phosteri a defnyddio balwns porffor i addurno'r ysgol.

Creu gwaith celf ar thema porffor a Dant y Llew ac arddangos o amgylch yr ysgol.

Cwblhau taflenni gweithgaredd ar thema'r Lluoedd Arfog, sydd ar gael gan Little Troopers.

Canu can Dandelions gan Never Such Innocence gyda fideo cerddoriaeth, trac cefndir a cherddoriaeth ddalen ar gael.

Cefnogi plant i gymryd rhan yn y gystadleuaeth barddoniaeth a chelf Never Such Innocence. Ar agor 1 Ebrill - 2 Mai.

Cefnogi plant i gymryd rhan yn gystadleueth 'Reading Force Memoir Writing'. Ar agor 1 Mai – 31 Awst.

Clymu rhubanau porffor ar ffens neu goeden ar gyfer pob plentyn y Lluoedd Arfog yn yr ysgol.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MotMCCymru

# Little Troopers

## Gweithdai rhithwir a llyfrau dwyieithog

Mae Little Troopers wedi creu dau weithdy ar-lein am ddim gyda'r nod o ddod â phlant y Lluoedd Arfog ynghyd i archwilio'r heriau a'r cyfleoedd unigryw y maent yn eu profi, ac i ddathlu'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn 'Little Trooper'.

Mae'r sesiynau'n cael eu recordio ymlaen llaw fel digwyddiad 'byw', a ddarperir gan dîm profiadol o hwyluswyr gan ddefnyddio adnoddau ysgolion cynradd Little Troopers sy'n ymgorffori adrodd straeon, symud, trafodaeth grŵp a chwarae rôl. Mae'r gweithdai ar agor i holl blant y Lluoedd Arfog yn eich lleoliad oedran cynradd ac yn addas ar gyfer grwpiau o unrhyw faint.

**Mae SSCE Cymru yn eich annog i ymuno â'r gweithdy rhithwir ar Ddiwrnod 'Porffor I Fyny' (Dydd Mercher 30ain Ebrill).**

Cysylltwch â ni SSCECymru@wlga.gov.uk am ragor o wybodaeth ac adnoddau.

### Little Troopers / SSCE Cymru Llyfrau dwyieithog

Mae'r chwe llyfr dwyieithog hyn, a ysgrifennwyd o safbwynt plentyn y Lluoedd Arfog, yn ychwanegiad gwych i lyfrgell eich ysgol i blant sydd ag un rhiant neu rhieni yn gwasanaethu yn Lluoedd Arfog Prydain. Mae gan bob un o'r chwe llyfr godau QR lle gallwch glywed y sain Cymraeg yn cael ei ddarllen.

Cysylltwch â ni yn SSCECymru@wlga.gov.uk i dderbyn eich llyfrau AM DDIM

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MotMCCymru

# Dathlu Mis y Plentyn Milwrol gyda Little Troopers

Mae'r elusen plant milwrol, Little Troopers, yn lle gwych i fynd am ysbrydoliaeth ar sut y gallwch adnabod a dathlu'r plant milwyr yn eich lleoliad ym mis Ebrill eleni.

**Pecyn Ysgol Little Troopers**

Mae'r elusen wedi creu "Pecyn Ysgol Mis y Plentyn Milwrol" newydd sbon sydd am ddim i lawr lwytho o www.littletroopers.net/month-of-the-military-child

Yn y pecyn, fe welwch lawer o syniadau gweithgaredd i ennyn diddordeb plant a'u cael i siarad ac ysgrifennu am sut beth yw bywyd yn tyfu i fyny fel 'little trooper'.

**Diwrnod Dant y Llew – Dydd Gwener 4ydd Ebrill**

Eleni, mae Little Troopers yn annog ysgolion a theuluoedd i gymryd rhan yn 'Ddiwrnod Dant y Llew' trwy wisgo rhywbeth melyn ar ddydd Gwener 4ydd Ebrill. Bydd y weithred fach hon yn gwneud i eich blant milwyr deimlo eu bod yn cael eu cydnabod, eu cynnwys a'u dathlu. Mae hefyd yn rhoi'r cyfle perffaith i chi siarad am pam mai'r dant yw blodyn swyddogol y plentyn milwrol, trwy ddefnyddio Cerdd y Dant, a welwch ym mhecyn ysgolion Little Troopers.


**Chrefftau**

Chwilio am syniadau i ymgysylltu â phlant iau? Ewch i wefan Little Troopers lle byddwch yn dod o hyd i daflenni gweithgareddau dant y llew hwyliog i'w lawr lwytho, gan gynnwys does chwarae dant, bisgedi dant, printiau celf dant a chrefftau dant.

**Digwyddiadau**

Mae Little Troopers hefyd yn cynnal digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb drwy gydol mis Ebrill, gan ddod â chymaint o blant milwrol â phosibl ynghyd yn ystod Mis y Plentyn Milwrol. Darganfyddwch fwy yn www.littletroopers.net/month-of-the-military-child



SCHOOLS PACK

April is all about shining a light on children who are connected to the British Armed Forces community. It's a time for your school to celebrate the service children in your setting, as well as getting ALL your students to learn more about what it's like to be a 'little trooper'.

As a charity, we think it's really important that schools recognise and acknowledge the unique experiences of military children. Military life can be an exciting adventure, but at times, it can also be challenging.

This pack is full of ideas to help you acknowledge this; marking the month by celebrating your service children for the unique life that they lead and encouraging them to share some of their experiences with their peers.

In the following pages you will find assembly planners, activity ideas, lesson plans and more. Many of the activities are dandelion themed, because the dandelion is the official flower of the military child.

*Strong and hardy, dandelions thrive wherever the wind carries them, just like our little troopers.*

**You might choose to do one of the activities or you might do all of them as part of a series across the month.**

**This pack includes:**

- Dandelion Poem
- Letter Writing activities
- Class fingerprint activity
- Assembly Planners – Primary & Secondary
- Certificate template
- Mindfulness Colouring

Dandelion Day - 4 April 2025

We would love to encourage you to dedicate a whole day to celebrating your military children! We have named *Friday 4 April 2025 as Dandelion Day 2025* and we invite you to join us. You might like to ask your children and teachers to come in dressed in yellow or wearing a yellow item such as socks or a hair scrunchie. Alternatively, if you run a Little Troopers club and children have Little Troopers hoodies or t-shirts, then you might ask them to come in wearing these.

On Dandelion Day, you might choose to do activities from this pack or even invite serving parents to come into school to speak in assembly. However you mark the day, we'd love to hear about it and see your photos so do keep in touch by emailing info@littletroopers.net or tagging us on social media.

Don't forget that we also have lots of free resources to support military children all year round on the Little Troopers website including interactive video workshops especially designed for use in schools, our 'X-Ray of Feelings' illustrations and worksheets, our Forces Life Club pack and a podcast for military teens (called SQUAD) to name just a few. Head to **www.littletroopers.net** and the At School area.


For the first time we are dedicating a day in April to become Dandelion Day. We would love to encourage you to dedicate a whole day to celebrating your military children within your setting!

We have named Friday 4 April 2025 as Dandelion Day 2025 and we invite you to join us.

Email: info@littletroopers.net

Little Troopers Registered charity no (England and Wales) 1149258

www.littletroopers.net
twitter: @littletroopers_
facebook: littletroopersathome




Month of the Military Child

Email: info@littletroopers.net
www.littletroopers.net
twitter: @littletroopers_
facebook: littletroopersathome

Little Troopers Registered charity no. (England and Wales) 1149258

Month of the Military Child

neversuchinnocence.com
/month-of-the-
military-child



Sing ‘Dandelions’
Canu ‘Dandelions’

# Memories | Atgofion

Past, present and future
Y gorffennol, y presennol a’r dyfodol







Poetry & Art Competition
Cystadleuaeth Barddoniaeth a Chelf
1 April - 2 May | 1 Ebrill - 2 Mai








Wear Purple!
Gwisgwch Porffor!

NEVER SUCH INNOCENCE
GIVING YOUNG PEOPLE A VOICE ON CONFLICT
EST 2014
CELEBRATING 10 YEARS

# DYWEDWCH STORI WRTHYM...

# READING FORCE YSGRIFENNU COFIANT CYSTADLEUAETH 2025!

Rydym yn falch iawn o wahodd plant a phobl ifanc gydag unrhyw fath o gysylltiad milwrol i gymryd rhan! Gall cyflwyniadau fod yn fyfyrdodau ar eich bywyd eich hun fel plentyn neu berson ifanc milwrol, neu am riant, perthynas neu berson sy'n cael ei edmygu.



GALLWCH GYFLWYNO CEISIADAU O 1AF MAI TAN 31AIN AWST

## GWOBRAU

BYDD COFNOD UN ENILLYDD O BOB GWASANAETH YN CAEL EI GYHOEDDI YN Y CYLCHGRONAU FAMILY FEDERATION, ARMY & YOU, HOMEPORT, AC ENVOY. BYDD CHWECH YN AIL YN DERBYN TOCYNNAU LLYFR GWERTH £50.

## POB LWC!

Cefnogir y gystadleuaeth hon yn hael gan Bolt Burdon Kemp

**Beth yw'r gofynion mynediad?**

Plant a Phobl Ifanc

PPlîs cyflwynwch ddarn o ysgrifennu rhwng 500 a 1,000 o eiriau. Gall hyn fod yn gerdd, cof, myfyrdod, neu stori wir. Mae croeso i chi gynnwys darlun.

**Sut i gyflwyno?**

Rhaid e-bostio pob cais at: info@readingforce.org.uk

Ni dderbynnir ceisiadau postio.

Gellir dod o hyd i'r manylion llawn yma:

## www.readingforce.org.uk

Reading Force is a Registered Charitable Incorporated Organisation No: 1159890. Cobseo member.

# Diwrnod y Lluoedd Arfog 2025

## Dydd Sadwrn 28ain Mehefin

**Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog yn gyfle i ddangos eich cefnogaeth i'r dynion a'r menywod sy'n rhan o gymuned y Lluoedd Arfog: o milwyr sy'n wasanaethu ar hyn o bryd i deuluoedd y Lluoedd Arfog, cyn-filwyr a chadetiaid.**

Mae Diwrnod y Lluoedd Arfog yng Nghymru yn coffáu ac yn dathlu cymuned y Lluoedd Arfog. Mae'n ddigwyddiad partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, Llywodraeth Cymru, y tri gwasanaeth a phartneriaid eraill. Bob blwyddyn, mae Diwrnod y Lluoedd Arfog Cymru yn cael ei gynnal a'i ddathlu mewn rhanbarth gwahanol ar draws y wlad.

**Eleni bydd Sir Fynwy yn cynnal y dathliadau!**


Mae Cyngor Sir Fynwy yn gwahodd plant y Lluoedd Arfog a'u cyfoedion ledled Cymru i gymryd rhan trwy ddylunio darn jig-so a fydd yn cael ei arddangos fel un darn o gelf ar y cyd yng Nghastell Cil-y-coed.

**Thema gwaith celf:** 'Beth mae'r Lluoedd Arfog yn ei olygu i chi'.

**I gymryd rhan:**

- Lawrlwythwch y templed o dudalen 'Diwrnod y Lluoedd Arfog' ar wefan SSCE Cymru.
- Cael hwyl yn dylunio eich darn jig-so!
- Torrwch y templed allan
- Dychwelwch yn y post i'r cyfeiriad a ddarperir

Peidiwch ag anghofio rhannu ar dagio a'r cyfryngau cymdeithasol @SSCECymru a @MonmouthshireCC



**DYCHWELYD I:**
The Armed Forces Team
Monmouthshire County Council
County Hall
United Kingdom
NP15 1GA

**DYCHWELYD ERBYN:**

**2ail Mai 2025**

**NODYN: Gall ysgolion Sir Fynwy ddisgwyl derbyn darnau jig-so pren gan yr awdurdod lleol.**

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MotMCCymru

# Llais Plant y Lluoedd Arfog

**Mae tîm SSCE Cymru yn angerddol am lais y disgybl. Rydym wrth ein bodd yn gwrando ar blant a phobl ifanc y Lluoedd Arfog ac yn annog addysgwyr yng Nghymru i gydnabod sut y gall gwrando ein helpu ni i gyd i newid pethau er gwell.**

## Clybiau Plant y Lluoedd Arfog Cymru

Gall SSCE Cymru gynnig syniadau ar wahanol sesiynau ac arweiniad ar sut i sefydlu clwb yn eich lleoliad addysgol. Os yw eich ysgol eisiau sefydlu clwb ac eisiau rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais am gyllid i gefnogi prosiect fel hyn, yna dewch draw i sesiwn alw heibio ar-lein i gael trafodaeth anffurfiol am eich camau nesaf.



## Pwy all fod yn Llysgennad Plant y Lluoedd Arfog?

Gall unrhyw blentyn neu berson ifanc sydd â chysylltiad â'r Lluoedd Arfog sydd mewn addysg yng Nghymru ar hyn o bryd ddod yn Llysgennad Plant y Lluoedd Arfog. Os oes gan eich ysgol glwb sefydledig, mae SSCE Cymru yn annog ei aelodau i ystyried gwirfoddoli fel llysgennad.

Fel llysgennad, byddant yn cynrychioli clwb eu hysgol a gellir eu gwahodd i rannu eu profiadau fel rhan o deulu'r Lluoedd Arfog gyda'n tîm a rhwydwaith SSCE Cymru, gan roi llais pwysig iddynt ar gyfer plant a phobl ifanc eraill y Lluoedd Arfog yng Nghymru.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MotMCCymru

# Byddwch yn Ysgol sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru

CYMRU
ARMED FORCES FRIENDLY SCHOOLS
YSGOLION SY'N CEFNOGI'R LLUOEDD ARFOG CYMRU

## AMCANION

1. Cynnwys arfer da ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog

2. Creu amgylchedd cadarnhaol I blant y Lluoedd Arfog rannu eu profiadau

3. Annog ysgolion I ymgysylltu fwy â'u cymuned y Lluoedd Arfog

## THEMÂU MEINI PRAWF

**NODI**

Plant y Lluoedd Arfog ac aelod allweddol o staff

**DEALL**

Plant y Lluoedd Arfog a'u hanghenion unigol

**YMGYSYLLTU**

Â SSCE Cymru a chymuned y Lluoedd Arfog

Am ragor o wybodaeth a chymorth, ewch i dudalen 'Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru' ar wefan SSCE Cymru a dewch draw i sesiwn galw heibio.

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

**Month of the Military Child**
**Mis y Plentyn Milwrol**
April/Ebrill | #MotMCCymru

# Sesiynau galw heibio SSCE Cymru

Bob mis, bydd SSCE Cymru yn cynnal cyfres o sesiynau galw heibio anffurfiol sy'n canolbwyntio ar themâu penodol. Dewch draw i unrhyw un o'r sesiynau sydd o ddiddordeb i chi, lle bydd aelodau o dîm SSCE Cymru yn rhannu gwybodaeth berthnasol, yn hyrwyddo adnoddau, yn cydlynu trafodaethau, yn ateb eich cwestiynau ac yn creu cyfleoedd i gydweithio.

## Amserlen MIS EBRILL

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **01/04**<br>**10:00** Mis y Plentyn Milwrol<br>**16:00** Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru | **02/04**<br>**10:00** Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog<br>**15:30** Llais plant y lluoedd arfog (Cynradd) | **03/04**<br>**10:00** Cynghrair SCiP Pecyn Cymorth Bywydau Ffyniannus<br>**15:00** Mis y Plentyn Milwrol | **04/04**<br>**10:00** Cyllid ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog<br>**15:00** Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru |
| **07/04**<br>**15:30** Llais plant y lluoedd arfog (Uwchradd) | **08/04**<br>**10:00** Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru<br>**15:00** Cynghrair SCiP Pecyn Cymorth Bywydau Ffyniannus | **09/04** | **10/04** | **11/04** |
| **14/04** | **15/04** | **16/04** | **17/04** | **18/04** |
| **21/04** | **22/04** | **23/04** | **24/04** | **25/04** |
| **28/04**<br>**15:00** Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru | **29/04**<br>**15:00** Cyllid ar gyfer cefnogi plant y Lluoedd Arfog | **30/04**<br>**10:00** Ysgolion sy'n Cefnogi'r Lluoedd Arfog Cymru | | |

**Am chyfarwyddiadau i ymuno, ewch i dudalen 'digwyddiadau sydd i ddod' ar wefan SSCE Cymru neu cysylltwch â'r tîm.**

## Cyfeiriadur Cymorth SSCE Cymru

Mae Cyfeirlyfr Cymorth SSCE Cymru yn cynnwys manylion bron i 100 o sefydliadau sy'n berthnasol i gefnogi plant y Lluoedd Arfog; gyda swyddogaethau chwilio a hidlo sy'n helpu defnyddwyr i ddefnyddio ehangder y wybodaeth.

I gael mynediad i'r cyfeirlyfr cymorth, ewch i:
https://www.sscecymru.co.uk/cymraeg/adnoddau/cyfeiriadurcefnogaeth/default.htm

SSCE CYMRU
SUPPORTING SERVICE CHILDREN IN EDUCATION WALES
CYNORTHWYO PLANT MILWYR YN YSGOLION CYMRU

Month of the Military Child
Mis y Plentyn Milwrol
April/Ebrill | #MotMCCymru

# NODIADAU / SYNIADAU:

Peidiwch ag anghofio postio ar gyfryngau cymdeithasol gan ddefnyddio hashnod: #MotMCCymru

Taggiwch @SSCECyrmu on: &